

Ymchwil a Datblygu

Adroddiad Blynyddol 2025-2026



YMCHWIL & DATBLYGIAD

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Aneurin Bevan University Health Board

RESEARCH & DEVELOPMENT



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Cynnwys

Rhagair	2
Ein Strategaeth - Adeiladu ar Sylfeini Cryf	4
Cynllun Gwirfoddol ar Brisiau Meddyginiaethau wedi'u Brandio, Mynediad, a Thwf	5
Amser Ymchwil Wedi'i Ddiogelu	7
Ymgorffori Ymchwil Drwy Amser Penodol – Hematoleg	8
Trefniadau Llywodraethu Ymchwil - Rhaglen Archwilio	9
Florence	10
Trefniadau Llywodraethu Ymchwil - Rheoli Nawdd	11
Pam bod Ymchwil yn Bwysig	12
Partneriaethau a Chydweithio	13
Cymrawd Ymchwil Clinigol	15
Cyflawni Ymchwil – Treialon Camau Cynnar a Chymhleth	16
Darparu Ymchwil – Paratoi a Sefydlu Astudiaeth	17
Ymgorffori i mewn i Ddarpariaeth Weithredol y GIG	18
Ein Metrigau Perfformiad 2025-2026	19
Metrigau sy'n dod i'r Amlwg 2026-2027	20
Cyllid Ymchwil	21
Addysg - Adeiladu Gallu, Hyder, a Diwylliant Ymchwil	22
Addysg – Adeiladu Gweithlu Cyflawni Ymchwil Arbenigol	23
Cynllun Prif Ymchwilydd Cyswllt (API) NIHR	24
Astudiaeth SANDBOX	25
Ein Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil – Flwyddyn yn Ddiweddarach	26
Effaith Gwranddo mewn Llwybrau Ymchwil	28
Blaen Gynllun	29
Cyfeiriadau	31

Rhagair

Croeso i adroddiad blynyddol 2025-26 ar gyfer yr Adran Ymchwil a Datblygu (Ymchwil a Datblygu) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn yr ydym yn edrych ymlaen at ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae ymchwil yn rhan hanfodol o'r Bwrdd Iechyd ac mae'n un o'r tri philer y mae ei statws Prifysgol yn seiliedig arnynt. Mae cysylltiad rhwng ymgymryd â gwaith ymchwil a gwell perfformiad gofal iechyd ledled y sefydliad a mwy o foddhad gyda swyddi (1). Mae hefyd yn borth y gall cleifion ei defnyddio i gael mynediad at y triniaethau arloesol diweddaraf. Mae ymchwil felly o fudd i bawb sy'n gweithio o fewn, ac sy'n cael gofal gan, y Bwrdd Iechyd.

Mae ein cynnydd yn seiliedig ar ein strategaeth pum mlynedd, *Ymchwil – Gweithgaredd Graidd* (2022–27), sy'n nodi ein huchelgais i ymgorffori ymchwil fel rhan sylfaenol o weithgaredd y Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi'i gryfhau ymhellach trwy ein llwyddiant i sicrhau tua £1.4 miliwn mewn cyllid cystadleuol yn 2024 trwy'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso Meddyginiaethau Wedi'u Brandio, Mynediad a Thwf (VPAG), gan ein galluogi i gynyddu ymchwil fferyllol ymyriadol sydd wedi'i noddi a'i ariannu'n fasnachol ar draws amrywiaeth o adrannau.

Yn yr adroddiad hwn, byddwch yn darllen am fuddion cynnar y llwyddiant hwn, gan gynnwys creu amser wedi'i ddiogelu ar gyfer staff meddygol a staff nad ydynt yn staff meddygol er mwyn adeiladu capasiti ar gyfer cymryd rhan mewn ymchwil. Byddwch hefyd yn darllen am benodiad ein Cydymaith Ymchwil Clinigol cyntaf, a'r effaith gadarnhaol y mae hyn wedi'i gael yn barod ar gyflawni ymchwil a thimau clinigol.



Seema Srivastava

Cyfarwyddwr
Meddygol
Gweithredol



David Bosanquet

Cyfarwyddwr
Meddygol Cyswllt



Helen Sweetland

Aelod Annibynnol



Jeanette Wells

Cyfarwyddwr
Ymchwil a Datblygu



Sue Bale

Cyfarwyddwr
Ymchwil a Datblygu



Susan Palmer

Pennaeth Cyflawni
Ymchwil



Abby Waters

Rheolwr Cyflawni
Ymchwil



Anna Roynon-Reed

Arweinydd Tîm
Cyflawni Ymchwil



Danielle Gunter

Rheolwr Ymchwil a
Datblygu

Rhagair parhad

Rydym yn parhau i gyflwyno cynllun Hyrwyddwr Ymchwil a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn parhau i gynnal rhaglen addysgu gadarn i gefnogi datblygiad gweithwyr proffesiynol iechyd sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ar draws y sefydliad.

Mae ein mesurau cyflawni ymchwil cadarn yn adlewyrchu nid yn unig arbenigedd y tîm R&D, gan gynnwys eu gwaith i ymgorffori ymchwil o fewn timau clinigol, ond hefyd ymrwymiad a chefnogaeth cyfarwyddiaethau a'u rheolwyr. Mae'r gwaith hwn wedi'i gydnabod yn genedlaethol, ac mae astudiaeth SANDBOX wedi derbyn Gwobr Arloesi MediWales ar gyfer Partneriaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Diwydiant.

Er mwyn cyflawni'r llwyddiannau hyn mae gofyn cael fframwaith lywodraethu gadarn, gan gynnwys gwiriadau pendant, prosesau archwilio a defnydd o Florence, system ddogfennaeth ymchwil a rheoli data electronig (bydd nwy o fanylion amdani yn nes ymlaen

yn yr adroddiad) i sicrhau bod ymchwil yn cael ei gyflawni'n ddiogel, yn foesebol ac i'r safonau uchaf

Er fy mod yn falch o'r trywydd yr ydym arno, rydym yn cydnabod ein bod yn wynebu heriau o hyd. Bydd mesurau ymchwil newydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd gofyn i'r tîm R&D fod yn fwy hyblyg o ran ymateb i gyfleoedd. Mae argaeledd ymchwil ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn annheg, gydag angen brys i gryfhau ein presenoldeb yn GUH a YYF. Mae capasiti ar gyfer cyflawni ymchwil hefyd yn parhau i fod yn dynn, ac mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau y mae'r GIG ehangach yn ei wynebu. Dim ond trwy weithio ar y cyd y gellir mynd i'r afael â'r heriau hyn, ac gyda hyn mewn golwg, rwy'n falch o groesawu ein Harweinydd Gweithredol newydd, Dr Seema Srivastava, Cyfarwyddwr Meddygol, y bydd ei phrofiad a'i harbenigedd yn ein cefnogi wrth i ni wynebu'r hyn sy'n dod nesaf.



Wrth i chi ddarllen yr adroddiad hwn, gobeithiaf y byddwch yn cydnabod y brwdfrydedd, angerdd ac ymrwymiad tîm R&D BIPAB, y gweithwyr proffesiynol iechyd sy'n cyflawni'r ymchwil, a'r timau cyfarwyddiaeth sy'n cefnogi'r gwaith hwn. Gobeithiaf hefyd y byddwch yn cydnabod y gwerth yr ydym yn ei roi ar y lluo bobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil sydd wedi rhoi eu caniatâd i helpu i adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, gobeithiaf y byddwch yn cytuno bod ymchwil yn rhywbeth y gall, ac y dylai, pawb o fewn y Bwrdd Iechyd ei gefnogi.

**Yr Athro David Bosanquet
Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Ymchwil
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Ein Strategaeth

Adeiladu ar Sylfeini Cryf

Mae ein Strategaeth Ymchwil pum mlynedd (2022–2027) yn parhau i arwain datblygiad seilwaith ymchwil cynaliadwy, syml, a chreadigol ledled y Bwrdd Iechyd.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn cynnig cyfle pwysig i adlewyrchu ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, dathlu llwyddiannau ein cymuned ymchwil, ac ystyried ein prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Nawr ein bod ym mhedwaredd blwyddyn ein Strategaeth Ymchwil pum mlynedd (2), rydym yn dechrau gweld effaith y sylfeini cryf a osodwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar - trwy gryfhau

seilwaith, mwy o gapasiti, a diwylliant sy'n tyfu o ran cydweithio ledled y Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad hwn yn amlgu'r cerrig milltir pwysig sydd wedi'u cyrraedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i staff a chleifion, a'r camau nesaf a fydd yn parhau i yrru amgylchedd ymchwil gynaliadwy, arloesol, o ansawdd uchel.

Ein Amcanion

1. Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi
2. Buddsoddiad mewn Staff a Seilwaith
3. Rhaglen Ymchwil Syml, Effeithlon ac Arloesol

Cynnydd ers y Flwyddyn Ddiwethaf

Yn adroddiad y llynedd, fe amlinellom sut yr oedd y strategaeth yn cael ei gweithredu trwy ffrydiau gwaith penodol, pob un yn cael ei gefnogi gan grwpiau tasg hyblyg ac yn cael eu goruchwylion gan y Grŵp Strategaeth Ymchwil Chwarterol. Mae'r strwythur hwn wedi parhau i ddarparu trefniadau llywodraeth cadarn, gan sicrhau bod prosiectau yn parhau i fod wedi'u halinio â'n nodau hirdymor tra'n caniatáu i ni ymateb i gyfleoedd sy'n codi.

Wrth i ni gamu i gam nesaf y strategaeth, mae ein ffocws ar gydgrynhoi a thwf parhaus. Bydd y ffrwd waith bresennol a'r model goruchwyllo yn parhau i ddarparu

cyfarwyddyd, a chefnogaeth ar gyfer datblygiad parhaus. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ein system ymchwil yn parhau i fod yn ymatebol, yn gynaliadwy yn ariannol, ac wedi'i halinio â blaenoriaethau sy'n esblygu gan y Bwrdd Iechyd a Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW).

Mae'r strategaeth yn parhau i ddarparu trywydd pendant, gan sicrhau bod ymchwil yn parhau i fod yn weithgaredd graidd o fewn y Bwrdd Iechyd a bod staff a chleifion yn elwa o amgylchedd ymchwil gadarn, gysylltiedig, sy'n edrych tua'r dyfodol.



Ffynonellau Ariannu Allanol

Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau Wedi'u Brandio (VPAG)

Mae Adolygiad Masnachol o Dreialon Clinigol (Mai 2023) gan yr Arglwydd O'Shaughnessy yn amlygu dirywiad sylweddol yng ngweithgarwch treialon clinigol masnachol y DU, gyda'r DU yn cwmpo o'r 4ydd i'r 10fed yn rhyngwladol ar gyfer treialon cam III.


Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at effaith y dirywiad hwn ar weithgarwch treialon clinigol masnachol, megis llai o gyfleoedd i gleifion yn y DU gael mynediad at driniaethau arloesol a allai wella, ymestyn, neu achub eu bywydau. At hynny, mae colled ariannol i'r GIG yn deillio o ostyngiad mewn gweithgarwch masnachol. Mae'n rhaid ariannu llawer o therapïau, meddyginiaethau a gwasanaethau gofal iechyd a fyddai wedi cael eu hariannu gan gwmni fferyllol yn lle hynny gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd (3).

Mewn ymateb, mae cydweithrediad mawr rhwng y GIG a Chymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) wedi arwain at fuddsoddiad o £400 miliwn ledled y DU i adfywio ymchwil fasnachol, ysgogi twf economaidd, a chryfhau cystadleurwydd bydeang y DU o ran cyflawni treialon clinigol (4).


Sicrhau Cyllid VPAG ar gyfer BIPAB

Trwy'r fenter hon, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi sicrhau £1.4 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2029. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu i Fyrddau Iechyd trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar ran Llywodraeth Cymru (WG). Mae hyn yn dod gyda'r disgwyliad o gynaliadwydd ar ddiwedd y cyfnod cyllido.

Rhagolygon y Cynllun Gwariant - VPAG/HCRW Swyddi wedi'u harianni



Galwadau Cyllido VPAG Llwyddiannus AB Ychwanegol



Ffynonellau Ariannu Allanol

Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau Wedi'u Brandio (VPAG)

Cynyddu Capasiti

Diben cyllid VPAG yw cael gwared ar rwystrau i gyflwyno treialon clinigol ymyriadol fferyllol, gan gynnwys:

- Ychydig iawn o amser i weithwyr proffesiynol weithredu fel Prif Ymchwilyr (PIs)
- Trefniadau cyflenwi meddygol annigonol i gefnogi PIs
- Problemau o ran capasiti o ran cyflawni ymchwil, llywodraethu a chymorth ariannol.

I fynd i'r afael â'r heriau hyn, rydym wedi buddsoddi yn y canlynol:

- Cymrawd Ymchwil Clinigol
- Amser sesiwn clinigol ar gyfer tri chynghorydd, un nyrs arbenigol, ac un podiatregydd
- Nyrsys ymchwil a swyddogion ymchwil ychwanegol
- Mwy o gymorth o fewn y tîm llywodraethu ymchwil
- Swyddog Busnes Cyllid a fydd yn cael eu penodi cyn hir, a fydd yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau llwyddiant menter VPAG

Edrych Tua'r Dyfodol

Mae buddsoddiad VPAG yn cynnig cyfle sylweddol i BIPAB ehangu'r ystod o dreialon clinigol masnachol y gallwn eu cyflwyno, gan gynnwys astudiaethau na fyddai wedi bod yn ymarferol o fewn y sefydliad o'r blaen. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd hyn yn ein helpu i gynnig mynediad cynnar i gleifion i driniaethau newydd ac arloesol tra hefyd gynhyrchu budd economaidd trwy incwm masnachol cynyddol ac osgoi costau.



Ein ffocws nawr yw manteisio ar y cyfle hwn a chreu model cynaliadwy a fydd yn parhau i gefnogi gweithgarwch ymchwil masnachol y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod cyllido ym 2029. Trwy gryfhau capasiti, sefydlu rolau newydd, gwella prosesau rheoli, a chefnogi gweithwyr proffesiynol i gymryd cyfrifoldebau ymchwil, rydym yn anelu at sicrhau bod y cyfleoedd hyn o ran treialon clinigol ehangach yn dod yn nodwedd hirdymor o gyflawni ymchwil ledled y Bwrdd Iechyd.



Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Amser Ymchwil wedi'i Ddiogelu

Mae ymgorffori ymchwil mewn ymarfer clinigol dydd i ddydd yn dibynnu ar staff sydd â'r amser a'r gefnogaeth i gymryd rhan mewn astudiaethau ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau clinigol. Y llynedd, cyflwynasom gyfarwyddyd newydd i helpu i sicrhau y gallai meddygon ymgynghorol sy'n cymryd rhan mewn ymchwil sicrhau amser Gweithgaredd Proffesiynol Cefnogol (SPA) priodol yn eu cynlluniau swydd. Mae'r gwaith hwn wedi parhau, ac mae disgwyliadau cliriach bellach yn helpu mwy o glinigwyr i gynnwys ymchwil yn eu wythnos waith.

Cynyddu Amser Ymchwil Penodol Drwy VPAG

Yn 2025, cryfhawyd y dull hwn drwy gyllid a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG). Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi sawl arbenigedd i gynyddu eu capasiti o ran ymchwil penodol, gan gynnwys Dementia a Niwroddirwyd, Rhiwmatoleg, Gwella Clwyf, a Haematoleg.

Trwy ddarparu amser mewn sesiynau wedi'i ariannu a chefnogaeth weithredol ychwanegol, mae VPAG yn helpu i ddileu rhwystrau hirdymor i gymryd rhan yn ymchwil. Mae gan y clinigwyr nawr gyfle gwell i weithredu fel Prif Ymchwilwyr, arwain astudiaethau, a chefnogi'r gwaith o gyflawni ymchwil fasnachol ac anfasnachol. Mae hyn yn cynyddu'r ystod o dreialon sydd ar gael i gleifion ac yn cyfrannu at gynydd y portffolio ymchwil sy'n tyfu yn y Bwrdd Iechyd.



Pam mae Amser Wedi'i Ddiogelu yn Bwysig

Mae amser wedi'i ddiogelu ar gyfer ymchwil yn galluogi clinigwyr a thimau amlddisgyblaeth ehangach i:

- Arwain a chyflwyno astudiaethau yn ddiogel
- Cael mynediad at driniaethau newydd a'u cynnig i gleifion
- Adeiladu sgiliau ymchwil a hyder
- Cryfhau partneriaethau gyda chyflenwyr masnachol
- Cynorthwyo i osgoi costau trwy ddiagnosteg a therapïau a ariannwyd gan y diwydiant

Wrth i fwy o staff gael amser strwythuredig ar gyfer ymchwil, rydym yn gweld newid diwylliannol ehangach tuag at ymchwil yn cael ei gynnwys o fewn gofal rheolaidd.

Edrych tua'r Dyfodol

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gynyddu amser ymchwil wedi'i ddiogelu ar draws ystod ehangach o alwedigaethau. Gan adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud trwy gyfarwyddyd SPA a'r amser sesiynol a ariannwyd gan VPAG, bydd ein ffocws ar sicrhau bod nyrsys, gweithwyr iechyd cyswllt a staff clinigol eraill yn cael cyfleoedd strwythuredig i gymryd rhan yn ac arwain ymchwil. Mae hyn yn cynnwys datblygu llwybrau cliriach ar gyfer Prif Ymchwilwyr nad ydynt yn staff meddygol a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i dimau sy'n ymgymryd ag astudiaethau masnachol ac anfasnachol.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r cyfarwyddiaethau i gynnwys amser wedi'i ddiogelu yn y broses gynllunio swyddi rheolaidd, gan sicrhau bod gweithgaredd ymchwil yn cael ei gydnabod, ei gynllunio, a'i gefnogi'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Trwy gynyddu mynediad at amser ymchwil penodol a pharhau i fuddsoddi mewn capasiti ymchwil, rydym yn bwriadu cynyddu nifer yr astudiaethau sydd ar gael i gleifion ac integreiddio ymchwil ymhellach i ofal clinigol dydd i ddydd.

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Amser Ymchwil wedi'i Ddiogelu

Ymgorffori Ymchwil Drwy Amser Penodol - Haematoleg

Mae Haematoleg yn parhau i ddangos sut gall y amser ymchwil wedi'i ddiogelu drawsnewid gweithgarwch ymchwil gwasanaeth. Gydag amser sesiynol penodol a mwy o gymorth gweithredol, mae'r adran wedi ehangu ei phortffolio ymchwil, gan agor nifer o astudiaethau a chynyddu cyfleoedd i gleifion gael mynediad at therapïau sy'n dod i'r amlwg. Mae perfformiad cyflawni cyson hefyd wedi cryfhau perthnasoedd gyda noddwyr masnachol, gan osod y gwasanaeth mewn safle dibynadwy ar gyfer treialon yn y dyfodol.



Mae ymgorffori ymchwil o fewn gofal clinigol rheolaidd yn dibynnu nid yn unig ar rolau ymchwil penodol ac amser clinigwyr, ond hefyd ar gefnogaeth gref, weithredol gan Reolaeth y Gyfarwyddiaeth. O fewn Haematoleg a Rhiwmatoleg, mae arweinyddiaeth effeithiol wedi bod yn hanfodol i alluogi timau i gydbwysu galw clinigol uchel gyda gweithgarwch ymchwil cynyddol.

Dan arweinyddiaeth Rheolwr y Cyfarwyddiaeth **Rhys Knight**, mae goruchwyliaeth weithredol wedi sicrhau bod amser sesiynol meddygon ymgynghorol a ariannwyd gan VPAG yn arwain at y buddion mwyaf posib a bod ymchwil wedi'i alinio â blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae'r dull hwn wedi cefnogi'r gwaith o agor astudiaethau newydd yn gyflym ac wedi cyfrannu at gyflawniadau nodedig, gan gynnwys Haematoleg yn dod y **y recriwtwr uchaf yn y DU** ar gyfer tri treial masnachol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r model hwn sy'n seiliedig ar bartneriaeth yn helpu ymchwil i gael ei gydnabod fel rhan hanfodol o ofal safonol. Wrth adlewyrchu ar y cynnydd hwn, esboniodd Rhys:

“Rydym yn bwriadu ehangu ein portffolio ymchwil ymhellach ar draws Haematoleg a Rhiwmatoleg ac, lle bo'n bosibl, datblygu cefnogaeth glinigol i ymestyn hyn i Ddermatoleg.

Mae buddion sylweddol i gleifion o gymryd rhan mewn treialon clinigol yn y meysydd hyn, yn enwedig wrth ddarparu mynediad at driniaethau newydd, mwy effeithiol o bosib, nad ydynt eto ar gael trwy ofal NHS rheolaidd. Mae unrhyw amser sy'n cael ei arbed wrth drin a rheoli canserau'r gwaed a chyflyrau rhiwmatolegol yn gallu cael effaith sy'n newid bywyd.

Mewn sawl achos, mae cleifion yn cael eu monitro'n agosach trwy adolygiadau mwy rheolaidd, gwirio symptomau, a chymorth arbenigol gan ein cynghorwyr. Gall hyn arwain at ddarganfod newidiadau yn eu cyflwr yn gynnar ac mae'n rhoi mwy o sicrwydd. Mae cleifion yn aml yn disgrifio eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu triniaeth pan fyddant yn cymryd rhan mewn ymchwil, gan ennill dealltwriaeth ddyfnach o'u cyflwr a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

O ran arian, gall cymryd rhan mewn treialon a noddir yn fasnachol neu dreialon portffolio arwain at osgoi costau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae meddyginiaethau cost uchel, diagnosteg wedi'i ariannu, a gwell monitro yn gwrthbwysu gwariant a fyddai fel arall yn eistedd o fewn y gyfarwyddiaeth. Ar adeg pan mae llawer o feysydd cleifion allanol dan straen, mae'r gallu i symud gweithgaredd priodol i R&D hefyd yn rhyddhau capasiti yn ôl i unedau clinigol.

Mae'r adran hefyd wedi cynhyrchu incwm masnachol ar lefelau sydd wedi eu galluogi i ariannu capasiti nyrsio ymchwil ychwanegol.

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Llywodraethu Ymchwil

Rhaglen archwilio

Mae archwilio o fewn ymchwil yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau ymarfer moesegol, diogelwch cyfranogwyr, cywirdeb data, a chydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a gofynion y Bwrdd Iechyd. Mae'r Adran Ymchwil a Datblygu, a gefnogir gan ei System Rheoli Ansawdd a'r strwythur llywodraethu sy'n cynnwys Grŵp Rheoli Ansawdd R&D (QMG) a'r Grŵp R&D, yn darparu sicrwydd ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag astudiaethau a gynhelir ac a noddir.

Cafodd y rhaglen archwilio mewnol, a oedd yn cael ei gweithredu'n llawn cyn COVID-19, ei hoedi am gyfnod oherwydd cyfyngiadau capasiti. Rhoddodd hyn gyfle i adolygu a chryfhau'r broses, ymhorrffori'r hyn a ddysgwyd o archwiliadau blaenorol, alinio'n agosach â disgygliadau MHRA a mabwysiadu gwell offer ac o'r Rhwydwaith Cyfleusterau Ymchwil Clinigol yn y DU. Mae'r newidiadau hyn wedi cefnogi dull mwy strwythuredig o adnabod risgiau, uwchgyfeirio, a mapio sicrwydd.

Datblygwyd a chymeradwywyd offeryn dewis astudiaeth yn seiliedig ar risg trwy'r strwythur llywodraethu i gefnogi'r gwaith o gynllunio archwiliadau gwrthrychol a chymesur. Yn ystod 2025, cwblhawyd tri o chwe archwiliad a gynlluniwyd, a gohiriwyd y gweddill oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti. Nid oedd angen archwiliadau 'am reswm'.


Roedd un astudiaeth a archwiliwyd wedi'i chategoreiddio ymlaen llaw fel risg uchel ac roedd dwy wedi'u categoreiddio fel ganolog trwy broses asesu risg yr adran.

Mae canfyddiadau o'r archwiliadau wedi llywio cynlluniau gweithredu cywiro ac maent yn cyfrannu at welliannau parhaus yn y broses lywodraethu ymchwil.

Mae'r ymrwymiad gan Brif Ymchwilwyr a thimau ymchwil wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r rhaglen yn cefnogi dull mwy agored a rhagweithiol o fynd i'r afael ag ansawdd, yn unol â'r Dyletswydd Ansawdd statudol, sy'n gofyn i holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru ddangos bod eu penderfyniadau, eu systemau a'u prosesau yn hyrwyddo gofal diogel, effeithiol o ansawdd uchel.

Mae cynllun archwilio dros dro ar gyfer 2026 wedi'i ddatblygu ac wedi'i gytuno o fewn y strwythur llywodraethu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Ymchwil a Datblygu ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

Bydd gweithredu'r cynllun yn cryfhau'r oruchwyliaeth o dreialon a gynhelir ac a noddir ac yn gwella sicrwydd llywodraethu ymchwil cyffredinol y Bwrdd Iechyd.



Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Florence

Yn ein adroddiad blynyddol diwethaf roeddem yn falch o gadarnhau bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cymeradwyo defnyddio arian VPAG i weithredu *Florence*, system rheoli ffeiliau safle digidol. Mae cyflwyno Florence eBinders yn nodi cam pwysig ymlaen o ran moderneiddio'r ffordd y mae ymchwil yn cael ei lywodraethu a'i gyflawni ledled y Bwrdd Iechyd. Mae Florence yn darparu llwyfan digidol diogel ar gyfer rheoli dogfennau astudiaeth hanfodol, gan ddisodli ffeiliau safle papur traddodiadol gyda system gyson sy'n cydymffurfio.

Ein Taith Hyd Yma

Cychwynnwyd y gwaith o gyflwyno'r system ym mis Gorffennaf 2025, pan gwblhawyd hyfforddiant y superusers o fewn y tîm. Cafodd hyfforddiant staff ehangach ei gwblhau ym mis Medi ac fe'i cyflwynwyd gam wrth gam. Galluogodd hyn y timau i fabwysiadu'r system mewn ffordd strwythuredig a gyda chefnogaeth.

Mae'r prif gerrig milltir yn cynnwys:

- Mae'r holl staff cyflawni ymchwil wedi'u hyfforddi ac yn defnyddio'r system gyda hyder.
- Pob ffeil electronig gyfredol wedi'i symud i Florence.
- Mae'r holl astudiaethau newydd sydd angen ffeil safle electronig bellach yn cael eu sefydlu'n uniongyrchol gyda Florence.
- Adborth cadarnhaol gan noddwyr, gyda staff monitro astudiaethau yn dweud ei bod yn hawdd i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau monitro.

Cryfhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth

Mae Florence yn gwella trefniadau llywodraethu ymchwil trwy sicrhau bod dogfennau hanfodol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn gyson. Mae nodweddion megis rheolaeth fersiwn, llwybrau archwilio, a mynediad seiliedig ar rôl yn helpu i sicrhau bod timau bob amser yn gweithio gyda gwybodaeth gywir sy'n cydymffurfio. Mae hyn yn cryfhau ein parodrwydd ar gyfer archwilio ac arolygu, yn cefnogi safonau rheoleiddio cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn rhoi hyder i noddwyr yn ein seilwaith ymchwil digidol.

Y Camau Nesaf

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Gwblhau hyfforddiant ar gyfer y staff sy'n weddill.
- Adolygu prosesau lleol yn barod i ymgorffori Florence mewn ymarfer rheolaidd.
- Parhau i gasglu adborth gan staff er mwyn arwain gwelliannau.
- Sicrhau defnydd cyson ar draws pob ardal ymchwil.



Sut mae Florence yn Cefnogi Ymchwil Yn y Bwrdd Iechyd



Diogel ac yn Cydymffurfio

Mae'n cwrrd â safonau rheoleiddio ar gyfer data ymchwil.



Trefnus & Ansawdd

Mae'n sicrhau cywirdeb, cysondeb a chydymffurfiaeth, i gyd wedi'u storio mewn un lle hygyrch, gan leihau dyblygu.



Cydweithredol

Mae'n galluogi cyfathrebu mwy esmwyth rhwng timau ymchwil gyda'r gallu i lofnodi dogfennau o unrhyw safle AB.



Effeithlon a Mwy Gwyrdd

Llai o waith papur a gwaith â llaw.



Addas ar gyfer y Dyfodol a Sefydlog

Gall addasu i reoliadau, arferion ymchwil sy'n esblygu a nifer cynyddol o astudiaethau.

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Llywodraethu Ymchwil

Rheoli Nawdd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu'r swyddogaeth Rheoli Nawdd o fewn BIPAB. Mae'r ddogfennaeth graidd sydd ei hangen i gefnogi rôl y Bwrdd Iechyd fel noddwr ymchwil wedi'i safoni ac wedi'i chryfhau ymhellach. Mae nifer o geisiadau am nawdd gan BIPAB wedi'u hadolygu, gyda phwyslais penodol ar sicrhau bod yr holl ddogfennaeth nawdd yn gyfredol, yn gymesur, ac yn adlewyrchu'n gywir y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â rôl noddwr.

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cefnogi dwy astudiaeth nawdd sy'n mynd rhagddynt:

Emboleiddio'r Rhydweli Geneciwlaid (GAE) fel Ymyriad syn achosi'r arcoll lleiaf posibl ar gyfer Cleifion â Osteoarthritis Ysgafn i Gymedrol yn y Pen-glin
Dyddiad cau disgwylidig: Mehefin 2026

Ysbyty i Gymuned: Gwerth o Optometryddion Golwg Gwan yn y Gymuned o ran darparu Tystysgrif o Amhariad ar y Golwg mewn
dirywiad maciwlaid sych sy'n gysylltiedig ag oedran (CVI)
Recriwtio wedi'i gwblhau: Mawrth 2026



At hyn, rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â Chanolfan Ymchwil Treialon (CTR) yng Nghaerdydd ar geisiadau cyllido i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a rhaglen NIHR EME i gefnogi dwy astudiaeth aml-ganolfan, a fyddai, pe byddai'n cael eu chyllido, yn cael eu nawdd gan BIPAB. Mae'r bartneriaeth hon yn helpu i gryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i weithredu fel noddwr ar gyfer ymchwil o ansawdd uchel.

Pam mae Llywodraethu Ymchwil yn Bwysig

Dysgu o'r gorffennol i Siapio'r Dyfodol – Rheoleiddio Ymchwil

Mae 2026 yn nodi'r diweddariad mwyaf o ran Rheoleiddio Treialon Clinigol y DU mewn dros ddau ddegawd. Mae hyn yn cynnig cyfle pwysig i adeiladu ar y prif egwyddorion sy'n sail i lywodraethu ymchwil glinigol a sut maent wedi datblygu i ddiogelu cyfranogwyr, cefnogi ymchwil o ansawdd uchel a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae llywodraethu ymchwil modern wedi'i siapio gan y gwersi sydd wedi'u dysgu o gyfnodau cynnar mewn hanes, gan gynnwys camdriniaethau difrifol o hawliau dynol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r digwyddiadau hyn wedi tynnu sylw at y niwed dwys a all ddigwydd pan fydd ymchwil yn cael ei chynnal heb oruchwyliaeth foesebol, parch at urddas unigolion, na chaniatâd gwybodus.

Mewn ymateb, cyflwynodd Treialon Nuremberg ar ôl y rhyfel gwestiynau sylfaenol am foesebol feddygol a arweiniodd at ddatblygiad Cod Nuremberg ar gyfer 1947. Sefydlodd hyn egwyddorion craidd ar gyfer ymchwil ar bobl, gan gynnwys y gofynion am ganiatâd gwirfoddol, gwybodus a chymwys, egwyddorion sy'n parhau i fod yn hynod berthnasol bron i 80 mlynedd yn ddiweddarach (6).

Er nad yw wedi'i rwymo mewn cyfraith, mae'r Cod wedi dylanwadu'n sylweddol ar reoleiddio ymchwil genedlaethol a rhyngwladol. Datblygwyd y egwyddorion hyn ymhellach trwy Ddatganiad Helsinki, a fabwysiadwyd gyntaf yn 1964 ac a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn 2024, a'r Adroddiad Belmont (1979), a ffurfiolodd fframweithiau moesegol ar gyfer gweithgaredd ymchwil. Ynghyd ag Ymarfer Clinigol Da, mae'r fframweithiau hyn yn ffurfio sylfaen foesebol a gwyddonol llywodraethu ymchwil heddiw.

Yn yr amgylchedd treialon clinigol presennol, mae dilyn y egwyddorion hyn yn hanfodol. Byddai gwyro oddi wrth y safonau hy yn sylweddol yn peryglu diogelwch y cyfranogwyr a chywirdeb y data, gan beri risgiau i gredadwyedd canlyniadau ymchwil, gyda chanlyniadau cyfreithiol a rheoleiddiol posib i ymchwil a noddwyr. Mae trefniadau llywodraethu cadarn, felly yn galluogi ymchwil i gael ei chynnal yn ddiogel, yn foesebol ac gyda hyder y cyhoedd (7).

Er bod y egwyddorion hyn wedi'u hail-ddehongli ar gyfer tirwedd ymchwil fodern, mae eu gwerthoedd sylfaenol yn cael eu hadlewyrchu'n amlwg yn y Medicines for Human Use (Clinical Trials) (Amendment) Regulations 2025 (5) sydd wedi'u diweddarau, a fydd yn cael eu gweithredu'n llwyr ar ddiwedd Ebrill 2026.

Mae'r fframweithiau hyn yn sicrhau y gall cyfranogwyr ymchwil gymryd rhan gyda hyder, gan wybod bod eu diogelwch, eu hurddas a'u caniatâd yn parhau i fod yn ganolog i bob gweithgaredd ymchwil.

Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith

Cyfleoedd i'r Gweithlu

Partneriaethau a Chydweithio

Mae gweithio mewn modd cydweithredol yn parhau i fod yn hanfodol o ran y ffordd yr ydym yn tyfu, yn cefnogi, ac yn cyflwyno ymchwil ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae ein partneriaethau yn ymestyn dros dîmau mewnol, sefydliadau cenedlaethol, sefydliadau academiaidd, elusennau, a rhwydweithiau arbenigol. Mae'r perthnasoedd hyn yn sicrhau bod ymchwil yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, yn adlewyrchu cyfeiriad cenedlaethol, ac yn parhau i fod ar gael ar draws ein gweithlu a'n cymunedau.

Partneriaethau Cenedlaethol a Chyfraniad Strategol

Eleni, cydweithiom â nifer o bartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys:

- Cyfranu at a hyrwyddo'r gwaith cenedlaethol a oedd yn sail i'r *Strategaeth Gweithredu Strategol ar gyfer Adeiladu Capasiti Ymchwil ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd Nghymru (8)*, a chefnogi'r gwaith o gyflwyno Blaenoriaeth II yn Lleol
- Ymgysylltu â Chyfathrebu HCRW a Chydweithrediadau Ymgysylltu i gryfhau aliniad â blaenoriaethau ymchwil Cymru gyfan
- Rhwydweithiau ymchwil penodol i glefydau cenedlaethol a rhaglenni a ariannwyd gan HCRW sy'n darparu cymorth datblygu arbenigol
- Y Rhwydwaith Cyflenwi Ymchwil Gofal Sylfaenol a Chymunedol, wrth i ni archwilio cyfleoedd i ehangu gweithgaredd ymchwil ar draws lleoliadau cymunedol



Alinio â Strategaethau'r Bwrdd Iechyd:

Mae ymchwil yn parhau i fod wedi'i alinio'n agos â sawl maes strategol allweddol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys:

- Y Strategaeth Cancer
- Y Strategaeth Nyrsio
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Strategaeth Trawsnewid Digidol
- Y Strategaeth Data, Dadansoddi a Rheoli Gwybodaeth

Gyda sawl un o'r strategaethau hyn yn agos at y dyddiad adnewyddu, rydym mewn sefyllfa dda i gyfrannu at yr ail gylch o flaenoriaethau sefydliadol, gan sicrhau bod ymchwil yn parhau i fod yn ganolog o ran gwella gwasanaethau a chanlyniadau cleifion. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus â chydweithwyr Cynllunio i sicrhau bod gofynion ymchwil yn cyd-fynd â Strategaeth Eiddo'r Bwrdd Iechyd, cyn iddi gael ei hadnewyddu yn 2028.

Rydym yn parhau i gydweithio â chydweithwyr nyrsio, y gweithlu, digidol, a chyfathrebu i gryfhau ymwybyddiaeth o ymchwil, cefnogi negeseuon cyson, a hyrwyddo diwylliant lle mae ymchwil yn weladwy ac yn dealladwy ar draws y Bwrdd Iechyd.

Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith

Cyfleoedd i'r Gweithlu

Partneriaethau a Chydweithio

Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)

Eleni, cwblhawyd asesiad Fframwaith R&D y GIG (9), cylch cynllunio IMTP, a'r Adroddiad Strategaeth R&D Blynyddol yn gyfochrog am y tro cyntaf. Cryfhodd hyn ein ymgynghoriad cynnar gyda Phartneriaid Busnes Cynllunio a chefnogodd gynnwys ymchwil yn y cynlluniau adran ac achosion busnes, gan helpu i sefydlu ymchwil fel rhan arferol o gynllunio sefydliadol yn hytrach na gweithgaredd ychwanegol.

Gan adeiladu ar y dull hwn, byddwn yn ehangu'r cyfranogiad i gynnwys adrannau corfforaethol ychwanegol yn yr asesiadau a'r adroddiadau yn y dyfodol. I gefnogi hyn, rydym yn datblygu sesiynau ymwybyddiaeth wedi'u targedu ac yn cryfhau ymgynghoriad traws-adrannol, gan sicrhau bod cydweithwyr yn deall yr agenda ymchwil a gallant gynnwys ymchwil yn y gwaith datblygu gwasanaeth arferol.



Partneriaethau Academaidd ac Allanol

Mae cydweithio academaidd yn parhau i fod yn ganolog i ddatblygu arweinyr ymchwil yn y dyfodol.

Mae ein gwaith gyda Phrifysgol Caerdydd yn parhau i gefnogi:

- Cysylltiadau academaidd a theitlau anrhydeddus ar gyfer darpar Brif Ymchwilwyr (CIs)
- Cyfleoedd datblygu ar gyfer ymchwilwyr nad ydynt yn feddygol a AHP sy'n dyheu i arwain ymchwil
- Sesiynau dysgu yn ystod cinio sy'n pwysleisio llwybrau academaidd, datblygiad CI, a chyfleoedd grant

Rydym yn datblygu cronfa ddata ganolog o adnoddau datblygu ymchwil ar dudalen mewnwyd R&D, gan gynnwys cysylltiadau megis Canolfan CEDAR ar gyfer Asesu Gofal Iechyd, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a rhwydweithiau neu brosiectau ymchwil penodol i glefyd cenedlaethol. Rydym hefyd yn cysylltu â'r grwpiau hyn i ddarparu cymorth wedi'i deilwra, cyfarwyddyd ar gais grant, a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff.

Mae penodiad ein Cyfarwyddwr Meddygol Cydweithredol ar gyfer Ymchwil fel Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd wedi cryfhau ein cysylltiadau academaidd ymhellach. Yn y rôl hon, mae'r **Athro Dave Bosanquet** yn parhau i gefnogi Prif Ymchwilwyr sy'n dod i'r amlwg o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd ar ddatblygu a chyflwyno ceisiadau am arian.

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Cymrawd Ymchwil Clinigol

Mae sefydlu swydd Cymrawd Ymchwil Clinigol o fewn y Cyfleuster Ymchwil Clinigol wedi bod yn gam mawr o ran cryfhau capasiti ymchwil ar draws y Bwrdd Iechyd. Crëwyd y rôl hon mewn ymateb i'r galw cynyddol ar ein clinigwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, y mae eu harbenigedd a'u henw da sy'n tyfu wedi arwain at gynydd sylweddol mewn cyfleoedd astudio masnachol a chymhleth. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, roedd absenoldeb cymorth meddygol penodol wedi dod yn dagfa o ran cyflawni treialon, yn enwedig ar gyfer astudiaethau sy'n cynnwys meddyginiaethau ymchwiliol neu'n gofyn am oruchwyliaeth glinigol dwys.



Rydym yn falch o adrodd bod y swydd bellach wedi'i llenwi, ac ymunodd Dr Mohammad K Islam â'r tîm ym mis Awst 2025.

Meddai Dr Islam:

"Mae bod yn rhan o'r maes hwn sy'n tyfu ac yn ehangu yn gyfle gwych i ddysgu. Mae'n rôl newydd, nid oes Cymrawd Ymchwil Clinigol wedi bod yn yr adran o'r blaen felly rydym yn ei siapio i weld sut y gallwn gefnogi'r adran a'r Bwrdd Iechyd yn well. Mae'n gyffrous cyfrannu at y ffordd y mae ymchwil yn cael ei chyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd."

Rôl Newydd sy'n Siapio'r gwaith o ehangu Cyflenwi Ymchwil yn BIPAB

Fel y Cymrawd Ymchwil Clinigol cyntaf o fewn y Bwrdd Iechyd, mae Dr Islam yn helpu i siapio sut mae'r rôl yn esblygu er mwyn diwallu anghenion portffolio ymchwil sy'n tyfu. Mae wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r gwaith o sefydlu astudiaethau, cynnal asesiadau meddygol, a sicrhau bod cynnyrch ymchwil yn cael eu darparu'n ddiogel yn y Cyfleuster Ymchwil Clinigol.

Mae'r gallu newydd hwn yn galluogi Prif Ymchwilwyr i ehangu eu portffolios ymchwil, gan gefnogi mynediad mwy teg i ymchwil ar draws arbenigeddau, a helpu'r Bwrdd Iechyd i ymateb i gyfleoedd cynyddol a galw.

Mae cyflwyno'r rôl hon yn nodi cam pwysig o ran creu capasiti ymchwil cynaliadwy.

Y Camau Nesaf

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y ffocws ar:

- Ymgorffori rôl y Cymrawd Ymchwil Clinigol i'r gwaith arferol o gyflawni ymchwil
- Gwerthuso effaith y swydd ar gapasiti cymorth astudio a goruchwyliaeth glinigol
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer swyddi Cymrawd ychwanegol wrth i weithgaredd ymchwil barhau i dyfu
- Cryfhau cysylltiadau rhwng y Cyfleuster Ymchwil Clinigol a'r Cyfarwyddiaethau clinigol
- Cefnogi datblygiad clinigwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol


Cyflawni Ymchwil

Treialon Camau Cynnar a Threialon Cymhleth

Yn ystod y flwyddyn hon, crëwyd Tîm Treialon Camau Cynnar a Threialon Cymhleth, gan gryfhau ein gallu i gefnogi astudiaethau sy'n cynnwys therapïau newydd, monitro dwys, a chynllunio treialon mwy cymhleth.

Mae'r tîm yn dod â chlinigwyr, nyrsys a swyddogion ymchwil, gwasanaethau cefnogi, a staff allweddol eraill sydd â phrofiad mewn cyflwyno astudiaethau masnachol o dwysedd uwch ynghyd.

Mae'r datblygiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ehangu ystod a chymhlethdod ymchwil fasnachol, gan gynnwys astudiaethau camau cynharach sy'n gofyn am fwy o oruchwyliaeth o ddiogelwch, monitro a chymorth clinigol, a sicrhau bod timau clinigol yn cael mynediad at yr arbenigedd sydd ei angen i gyflwyno'r astudiaethau hyn yn ddiogel ac yn effeithiol.



Mae prif swyddogaethau'r tîm yn cynnwys:

- Asesu hyfywedd a chapasiti ar gyfer astudiaethau masnachol cam cynnar a chymhleth.
- Darparu goruchwyliaeth arbenigol ar gyfer astudiaethau sy'n gofyn am brosesau diogelwch gwell
- Cydlynu gweithgareddau prawf cymhleth sy'n angenrheidiol ar gyfer trefniadaeth gyflym a dibynadwy
- Cefnogi llywodraethu a chydymffurfio rheoleiddiol ar gyfer astudiaethau dwysedd uwch
- Adeiladu capasiti ar draws timau ymchwil trwy hyfforddiant a mentora penodol

Cyflawni Ymchwil

Sefydlu Astudiaeth

Mae gwella cyflymder sefydlu prawf clinigol masnachol yn flaenoriaeth genedlaethol. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod uchelgais genedlaethol i sicrhau bod prawf clinigol masnachol yn symud o gais rheoleiddiol i recriwtio'r claf cyntaf o fewn 150 diwrnod erbyn Mawrth 2026. Mae hyn yn rhan o waith ehangach y DU i gryfhau'r gwaith o gyflawni ymchwil glinigol a sicrhau y gall astudiaethau ddechrau'n gyflymach (10).

Mae partneriaid cenedlaethol wedi gosod disgwyliadau cliriach ar gyfer pob cam o'r llwybr sefydlu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cymeradwyo, sefydlu safleoedd, a recriwtio'r claf cyntaf. Y nod yw lleihau oedi, gwella cysondeb, a gwneud y DU yn lle mwy deniadol ar gyfer ymchwil fasnachol.

Mae ein hamseroedd sefydlu astudiaeth ein hunain yn parhau i fod yn gadarnhaol, fel y dangosir yn ein mesurau ymchwil yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ac eleni rydym wedi cyflwyno proses fewnol mwy safonol a thryloyw i gefnogi gwelliannau pellach. Mae hyn yn cynnwys amserlenni cliriach mewnol, ymgysylltiad cynnar â'r adrannau sy'n cefnogi, a dull mwy cydgysylltiedig ar gyfer asesiadau hyfywedd a chapasit. Mae'r newidiadau hyn yn lleihau dyblygu, yn gwella cyfathrebu, ac yn fodd o fynd i'r afael â rhwystrau gweithredol cyffredin a all oedi'r gwaith o wneud safleoedd yn actif.

Mae proses sefydlu mwy effeithlon yn cryfhau ein gallu i gynnal astudiaethau masnachol trwy leihau amserlenni sefydlu a baich gweithredol, yn ein gwneud yn fwy cystadleuol a deniadol o ran derbyn nawdd, ac yn cynyddu cyfleoedd sydd ar gael i gleifion gymryd rhan mewn ymchwil.



Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi Ymgorffori i Ddarpariaeth Weithredol y GIG

Ymgorffori Cyflawni Ymchwil

Mae adroddiad y llynedd wedi nodi bwriad BIPAB i ehangu cyflawni ymchwil sydd wedi'i ymgorffori trwy adeiladu capasiti o fewn timau clinigol gweithredol a lleihau dibyniaeth ar y gweithlu cyflawni ymchwil canolog. Mae'r dull hwn yn parhau i ddatblygu, gyda chefnogaeth cydweithrediad agosach rhwng gwasanaethau clinigol, cyflawni ymchwil, a thimau llywodraethol.

Yn unigryw o fewn Cymru, mae gan BIPAB nyrs ymchwil arbenigol benodol sydd â'r rôl o gryfhau ac ymgorffori gweithgarwch ymchwil o fewn gwasanaethau clinigol lle mae astudiaethau'n cael eu cyflwyno fel rhan o ymarfer rheolaidd. Mae hyn yn darparu arbenigedd penodol i sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynllunio, ei chyllido, a'i chyflwyno i safon uchel gyson.

Mae'r nyrs arbenigol yn cefnogi timau trwy:

- arwain asesiadau hyfywedd i gadarnhau y gall astudiaethau gael eu cyflwyno'n ddiogel o fewn y gallu clinigol presennol
- gwella'r gwaith o gynllunio a chydlyn astudiaethau
- mentora timau sydd ag ychydig iawn o brofiad mewn ymchwil
- ymgorffori prosesau ymchwil i ffrydiau gwaith arferol a chefnogi cydymffurfiaeth â disgwyliadau rheoleiddiol a noddwyr
- gweithio mewn cydweithrediad â staff cyflawni eraill i hwyluso mynediad at hyfforddiant a mentora PI

Mae'r model hwn wedi galluogi mwy o feysydd clinigol i gymryd rhan mewn gweithgarwch ymchwil heb fod angen staff cyflawni ymchwil parhaol ychwanegol, gan sicrhau y gellir ehangu ymchwil fasnachol mewn modd ehangach a mwy cynaliadwy ar draws y Bwrdd Iechyd.



PI Dr Hayden Stephenson a CO-PI Emily Phillips ar gyfer
VIP3

Perfformiad Ymchwil BIPAB

Metrigau 2025-2026

Recriwtio i amser a tharged yw ein prif ddangosydd perfformiad o hyd, sy'n adlewyrchu ein gallu i recriwtio cyfranogwyr i astudiaethau ymchwil yn unol â'r camau a'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae hwn yn fesur cenedlaethol allweddol, gan y gall perfformiad isel parhaus effeithio ar hyder y cyflenwr a dyraniadau cyllid yn y dyfodol.

Masnachol	Anfasnachol
-----------	-------------

Canran yr Astudiaethau Sydd Wedi Cau a Recriwtiodd i Amser a Tharged	BIPAB, 80% Cymru 68%	BIPAB 100% Cymru 77%
--	-----------------------------	-----------------------------

Ynghyd â hyn, rydym yn monitro set ehangach o ddangosyddion perfformiad a adroddir yn genedlaethol sy'n darparu sicrwydd ar ansawdd, effeithlonrwydd a chysondeb yr ymchwil a gyflawnir ar draws astudiaethau masnachol ac anfasnachol. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn dangos bod perfformiad sefydlu a chyflawni astudiaethau BIPAB yn gadarn ac, mewn sawl maes, yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa ehangach yng Nghymru.

30 

Astudiaethau newydd wedi'u hagor yn 2025/26

513 

Cyfanswm y cyfranogwyr a recriwtiwyd ym mlwyddyn ariannol 2025/2026

89 

Cyfanswm yr astudiaethau *ar agor* yn 2025/26

81 

Cyfanswm yr astudiaethau *yn y camau dilynol* yn ystod 2025/26

Masnachol	Anfasnachol
-----------	-------------

Diwrnodau canolrif o'r dyddiad y dewiswyd y safle hyd at recriwtio cyfranogwr	BIPAB, 146 Cymru 165	BIPAB 118 Cymru 150
---	-----------------------------	----------------------------

Perfformiad Ymchwil BIPAB

Mesurau a fydd yn cael eu defnyddio 2026-2027

Mae'r meysydd mesur hyn sy'n dod i'r amlwg yn adlewyrchu gwaith ar lefel rhaglen genedlaethol sy'n siapia dulliau yn y dyfodol ar gyfer gwerthuso. Er bod y diffiniadau manwl a'r targedau yn dal i gael eu cwblhau, mae'r meysydd ffocws a fwriadwyd yn dod yn gliriach. Mae hyn yn cynnwys mesurau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a ariannwyd gan VPAG, ynghyd â mesurau sy'n ymwneud â mynediad i gyfleoedd ymchwil cancer trwy'r rhaglen Mynd i'r Afael â Chanser Drwy Ymchwil (11). Mae hyn yn cynnwys deall sut mae cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r sefydliad yn cael eu cefnogi i gael mynediad i astudiaethau ymchwil cancer, dim ots ble y cynhelir yr astudiaethau hynny.

Adolygiad amserol o Gyfleoedd Astudiaeth Masnachol



Adolygu 100% o gyfleoedd ymchwil masnachol o fewn 48 awr



Llinellau Amser Sefydlu Astudiaeth Masnachol

Astudiaethau sy'n symud o ddewis safle i olau gwyrdd o fewn 60 diwrnod
Y cyfranogwr cyntaf yn cael eu recriwtio o fewn 30 diwrnod o'r golau gwyrdd



Mynediad i Gyfleoedd Ymchwil Cancer

Cynnydd yn nifer y cyfranogwyr mewn treialon ymyrraeth cancer

Cynnydd mewn Gweithgaredd Masnachol



Cynnydd yn nifer y treialon masnachol a agorwyd

Recriwtio i Amser a Tharged (RTT)



Astudiaethau sy'n cau recriwtio am eu bod wedi cyrraedd eu targed recriwtio cytunedig – Masnachol & Anfasnachol

Cyllid Ymchwil

Polisi Cyllid R&D GIG 2026

Ym mis Mawrth rhyddhawyd polisi cyllid Cymru Gyfan ar gyfer ymchwil wedi'i ddiweddarau. Mae'r polisi'n cael ei gefnogi gan Gylchlythyr Iechyd Cymru (12) ac mae'n un o bolisiâu rheolaeth ymchwil craidd sefydliad y GIG. Mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer cyfrifo, rheoli, ac atebolrwydd o ran pob cyllid ymchwil o fewn sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

Y Camau Nesaf

Yn ystod y chwe mis nesaf, bydd R&D, mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr cyllid, yn gweithredu'r polisi hwn. I helpu gyda'r gwaith cyflwyno, mae ein cydweithwyr yn yr adran systemau cyllid yn ein cefnogi i adeiladu dangosfyrddau cyllid o fewn ein system ClikSense er mwyn ein galluogi i adrodd mewn modd mwy cadarn a dangos gwell tryloywder yn ein prosesau cyfrifo.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan rôl gyllid newydd, y byddwn wedi sicrhau cyllid ar ei chyfer trwy'r llif gwaith VPAG, a fydd yn cael ei hysbysebu'n gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd y rôl hon yn cefnogi rheolaeth fusnes pob cyllid ymchwil, ond hefyd yn helpu gyda'r elfen cynaliadwydd o raglen VPAG.

Mae ymchwil y GIG yng Nghymru yn cael ei hariannu o amrywiaeth o ffynonellau.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, derbyniodd Ymchwil a Datblygu: -

O HCRW (Ein prif ariannwr)

- **£1,842,523** i ariannu'r gwaith o gyflawni ymchwil (gan gynnwys cyflog a chostau nad ydynt yn gyflog)
- **£17,553** ar gyfer swydd Arweinydd Arbenigedd Cymru Gyfan ar gyfer Seiciatreg Henoed, a gynhelir gan BIPAB
- **£15,928** Costau Triniaeth Gormodol, i ariannu costau triniaeth o fewn astudiaethau ymchwil nad ydynt yn driniaethau safon gofal.

Adeiladu Capasiti Ymchwil a Datblygu

Mae hwn yn incwm sy'n cael ei greu o ymchwil fasnachol sy'n cael ei ailddefnyddio i alluogi ymchwil bellach o fewn y sefydliad.


- **Mae £98,898** eleni wedi ariannu ein rôl AMD a swyddi Cyfarwyddwr R&D, ynghyd â swydd datblygu ymchwil rhan-amser
- cyfanswm cyllid Haematoleg ar gyfer swyddi ymchwil yw **£58,572**

Cyllid VPAG (WG/HCRW)

- **£490,211** cyflog
- **£51,665** nid cyflog

Arian grant (NIHR, HCRW)

- Ar gyfer swyddi ymchwil o **£17,225**



■ HCRW ■ R&D Capacity Building ■ Grant Funding ■ VPAG (HCRW/WG)

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Addysg

Adeiladu Capasiti, Hyder a Diwylliant Ymchwil

Mae addysg ymchwil yn parhau i fod yn allweddol i'n strategaeth, gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno astudiaethau diogel, o ansawdd uchel a diwylliant ymchwil gweladwy ledled BIPAB.

Eleni, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn sgiliau, anwytho, a chymorth i ymchwilwyr, ac alinio gyda blaenoriaethau sefydliadol megis achredu wardiau, rhagoriaeth cyflwyno, a datblygiad gweithlu. Ein ffocws yn 2025–26 oedd cryfhau'r biblinell o glinigwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, gyda phwyslais benodol ar y Cynllun Prif Ymchwilydd Cyswllt (API) NIHR (13).

Paratoi ar gyfer Safonau wedi'u Diweddarau a Newidiadau i Reoleiddio

Wrth ddisgwyl y diweddariadau sydd ar ddod i ICH GCP E6 (R3), y Datganiad Helsinki (2024) diwygiedig, a newidiadau i ddeddfwriaeth treialon clinigol y DU, mae'r adran wedi ymgymryd â gwaith paratoi helaeth i sicrhau bod y tîm ymchwil arbenigol a staff y Bwrdd Iechyd ehangach sydd â chysylltiad â'r ymchwil yn barod am y newidiadau. Mae pob Gweithdrefn Weithredu Safonol (SOPs) adrannol wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd a'r symudiad at ddull sy'n fwy seiliedig ar risg o reoli gweithgarwch astudio, gan gefnogi eglurder a chysondeb o ran ein prosesau a'n safonau dogfennau wrth i ni symud ymlaen.

Mae staff bellach yn cael eu cyfeirio at y cwriclew GCP NIHR sydd wedi'i ddiweddarau, sy'n cynnwys modiwlau cyflwyno a chymorth atgoffa diwygiedig. Ynghyd â hyn, mae pob hwylusydd GCP adrannol wedi cwblhau eu diweddariadau eu hunain, gan eu galluogi i ddarparu sesiynau hyfforddi atgoffa HCRW wyneb yn wyneb ar Gydgrynhoi GCP, Rheoli Cofnodion Hanfodol mewn Ymchwil, a Chaniatâd Gwybyddus Dilys. Mae ein gweithdy PI sefydledig hefyd yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod wedi'i alinio â'r newidiadau a fydd yn digwydd cyn hir. Ar ôl iddo gael ei gyflwyno ym mis Ebrill, byddwn hefyd yn cynnig hyfforddiant diweddarau GCP HCRW a hyfforddiant Arferion Ymchwil Da (ar gyfer astudiaethau nad ydynt yn ymwneud â chyffuriau), gan sicrhau cymorth priodol i staff sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ledled y sefydliad.

I gefnogi parodrwydd ledled y Bwrdd Iechyd, rydym wedi darparu diweddariadau rheolaidd sy'n amlinellu'r newidiadau allweddol, amserlenni, a disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau wedi'u diweddarau. Mae'r cyfathrebiadau hyn wedi cael eu cefnogi gan sesiynau Dysgu Amser Cinio, gan helpu staff i deimlo'n wybyddus, yn hyderus, ac yn barod ar gyfer y newid.



Addysg

Adeiladu Gweithlu Arbenigol ar gyfer Cyflawni

Ymchwil

Wrth i ni gynyddu ein gallu i gyflwyno treialon clinigol mwy cymhleth a threialon camau cynnar, mae bod yn barod ar frys yn parhau i fod yn hanfodol i'n datblygiad fel tîm cyflawni ymchwil arbenigol. Mae swyddi ymchwil weithiau'n cael eu gweld fel swyddi sydd ar wahân i ymarfer clinigol rheng flaen; fodd bynnag, mae gwaith ein tîm ymroddedig yn parhau i ddangos y lefel uchel o sgiliau clinigol a'r crebwyll sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni astudiaethau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae gallu cymorth bywyd hefyd wedi cryfhau. Mae'r rhan fwyaf o uwch staff clinigol (Band 6+) bellach wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Bywyd mewn Argyfwng (ILS), a gefnogir gan nyrs ymchwil clinigol arbenigol sy'n hyfforddwr ILS ac yn gallu darparu sesiynau rheolaidd mewnol. Mae hyfforddwr rhaeadr Cymorth Bywyd Sylfaenol (BLS) yn darparu hyfforddiant i staff nad ydynt yn gymwys ar gyfer ILS, gan sicrhau sylfaen gyson o barodrwydd mewn argyfwng ledled yr adran.

Mae ein rhaglen Hyfforddiant Senario Brys wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ac yn awr mae'n symud tuag at fodel mwy strwythuredig. Mae cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys cynyddu pa mor aml y cynhelir sesiynau a chyflwyno senarios di-rybudd, gan gefnogi staff i ymateb yn hyderus i sefyllfaoedd clinigol annisgwyl. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel o barodrwydd sydd ei hangen ar gyfer amgylcheddau ymchwil camau cynnar a risg uwch.

Mae'r datblygiadau hyn yn cefnogi ein huchelgais strategol i adeiladu gweithlu ymchwil medrus, ymatebol sy'n gallu cyfrannu at bortffolio ehangach o astudiaethau cymhleth a chamau cynnar tra'n cynnal y safonau uchaf o ofal a diogelwch i'r cyfranogwyr.



Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

Datblygu'r Genhedlaeth Nesaf o Arweinwyr Ymchwil

Gwelliant o ran y nifer sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Prif Ymchwilydd Cyswllt (API) NIGHR a chadw cyfranogwyr

Eleni, cynhaliwyd prosiect Gwella Ansawdd penodol i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Prif Ymchwilydd Cyswllt (API) NIHR (13), llwybr pwysig ar gyfer datblygu clinigwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol. Cyn hyn, roedd cyfranogiad gan BIPAB yn cael ei effeithio gan ddiffyg ymwybyddiaeth, gwybodaeth amrywiol ar gyfer staff wrth ymuno â'r cynllun, ac roedd pobl yn tynnu allan am resymau y gallid eu hatal.

I fynd i'r afael â hyn, fe gyflwynom fesurau wedi'u targedu gan gynnwys gwybodaeth rhagarweiniol gliriach, sesiynau Dysgu Amser Cinio, mynd ati'n rhagweithiol i baru clinigwyr sydd â diddordeb gydag astudiaethau cymwys, a chymorth cynnar 1:1 gan staff R&D. Cynlluniwyd y newidiadau hyn i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, cefnogaeth, ac yn teimlo'n hyderus o'r cychwyn.

Mae'r effaith wedi bod yn sylweddol. Gwelwyd cynnydd o fwy na 50% yn y ceisiadau, a dychwelodd y lefelau sy'n tynnu ôl i'r un lefelau isel ag o'r blaen yn ystod y cyfnod o welliant, gan arwain at dwf net parhaus am y tro cyntaf. Adroddodd clinigwyr am ddisgwyliadau cliriach, gwell cyfathrebu, a mwy o hyder trwy gydol eu hymgysylltiad.

Mae'r gwaith hwn wedi trawsnewid y llwybr API yn lwybr sefydlog, sy'n cael ei gefnogi'n dda ar gyfer clinigwyr sydd am ddatblygu eu sgiliau ymchwil. Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, byddwn yn parhau i gryfhau cymorth cyfoedion ac archwilio cyfleoedd i integreiddio'r cynllun i llwybrau hyfforddi clinigol er mwyn cynnal twf hirdymor.

Cefnogi Ymwybyddiaeth Ymchwil Ar draws y Gweithlu Ehangach Beth yr ydym wedi'i Wneud yn ystod y Flwyddyn Hon



Achrediad Ward Aur

Mae ymchwil bellach yn ofyniad ar gyfer achrediad lefel Aur o fewn y Bwrdd Iechyd, ac un o'r meini prawf yn nodi Hyrwyddwr Ymchwil.



Anwytho IMG

Cyflwynwyd ymchwil yn ystod anwythiad Graddedigion Meddygol Rhyngwladol, ac mae'r sesiynau wedi tanio diddordeb newydd mewn ymchwil ac atgyfeiriadau i mewn i'r cynllun API.



Sesiynau Ymchwil CeSR

Sesiwn gyda nifer uchel o staff ymchwil yn mynychu, gan godi ymwybyddiaeth ymhlith meddygon CeSR.



Grand Round a Dysgu Arbenigol

Cyflwynwyd cyflwyniadau mewn cyfarfodydd arbenigol y Bwrdd Iechyd a Chymru gyfan yn ogystal â digwyddiadau adrannol.



Adnoddau ar y Fewnrwyd

Deunyddiau sy'n hawdd cael gafael arnynt a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo ymchwil, dealltwriaeth ac addysg ar draws adrannau ac aml broffesiynau.

Astudiaeth SANDBOX

Ym 2025, derbyniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Wobr Arloesi MediWales am Bartneriaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Diwydiant, gan gydnabod cryfder ei gydweithrediad â Prima Mente ar yr astudiaeth DU gyfan SANDBOX. Mae'r astudiaeth yn profi dulliau diagnostig newydd ar gyfer dementia Alzheimer trwy gyfuno biomarcwyr yn y gwaed, profion genetig, offer asesiadau gwybyddol digidol, a deallusrwydd artifisial o fewn llwybrau clinigol rheolaidd.

BIPAB oedd y safle cyntaf yn y DU i agor ar gyfer recriwtio. Fel mabwysiadwr cynnar, bu'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r noddwr i ddylunio'r ffordd y byddai SANDBOX yn cael ei gyflwyno o fewn ymarfer clinigol dydd i ddydd, gan sicrhau y gallai'r offer integreiddio'n esmwyth gyda llif gwaith y GIG yng Nghymru.

Mae hyn wedi dangos sut y gall cydweithrediad rhwng GIG a diwydiant, wedi'i gefnogi gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer sefydlu a chydlyn astudiaethau, gyflymu'r gwaith o gyflawni tra'n cadw ffocws cryf ar brofiad y cyfranogwyr.

Pam mae hyn yn bwysig i gleifion

Mae llwybrau diagnostig traddodiadol yn aml yn cynnwys nifer o apwyntiadau, arosiadau hir, a phrofion a all fod yn ymwithiol neu'n aneglur. Mae SANDBOX yn asesu a all profion gwaed, wedi'u cyfuno ag asesiadau strwythuredig a dadansoddiad a gynhelir gan AI, gynnig eglurder cynnar i gleifion a theuluoedd.

Cydweithrediad ledled Cymru

Mae'r gwaith o gyflawni'r astudiaeth wedi cael ei arwain gan y Prif Ymchwilydd Dr Chineze Ivenso, a chaiff ei gefnogi gan gydweithwyr o fewn Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn a'r tîm cyflawni ymchwil. Er mwyn sefydlu'r astudiaeth roedd angen gwaith cydgyssylltiedig ar draws gwasanaethau i sicrhau bod asesiadau, prosesau labordy, a gweithdrefnau dilynol yn rhedeg yn ddibynadwy. Mae'r hyn sydd wedi'i ddysgu o'r gwaith hwn wedi'i rannu'n genedlaethol, ac mae hyn wedi helpu i greu trefniadau sefydlu astudiaethau cyson ledled Cymru.

Mae adborth cynnar gan gyfranogwyr yn awgrymu bod y cyfuniad o asesiadau strwythuredig a chysylltiad penodol â staff ymchwil yn cael ei werthfawrogi. Mae nifer wedi tynnu sylw at y ffaith bod cymryd rhan wedi rhoi mwy o hyder iddynt yn y broses ddiagnostig a mwy o sicrwydd yn ystod cyfnod a all fod yn ansicr.



"Am y tro cyntaf mewn amser hir, teimlais fod rhywun yn edrych ar y darlun cyfan, nid ar un prawf ar y tro yn unig." Mae bod yn rhan o'r astudiaeth hon wedi rhoi mwy o obaith i mi a synnwyr cliriach o gyfeiriad."

- cyfranogwr SANDBOX

Er bod SANDBOX yn dal yn ei gamau cynnar, mae profiadau'r cyfranogwyr eisoes yn dangos gwerth profi dulliau diagnostig newydd mewn lleoliadau clinigol go iawn. Mae cyfranogwyr wedi disgrifio'r broses fel mwy cysylltiedig ac un sy'n rhoi mwy o dawelwch meddwl, gyda dealltwriaeth gliriach o beth mae eu hasesiadau'n ei olygu a sut mae eu gofal yn symud yn ei flaen.

Mae'r mewnwelediadau hyn yn adlewyrchu rôl ehangach ymchwil o fewn ein Bwrdd Iechyd: gwella taith y claf, cefnogi cyfranogiad gwybodus, a helpu i siapia llwybrau sy'n diwallu anghenion gofal yn y dyfodol ledled Cymru.

Ein Rhaglen Hyrwyddwr Ymchwil Flwyddyn yn Ddiweddarach

Fe lansiwyd y Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil ar ddiwedd 2024, ac fe'i crëwyd er mwyn gwneud ymchwil yn fwy gweledol, hygrych, a chydlynol ledled BIPAB. Un flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r rhaglen wedi datblygu i fod yn rwydwaith ffyniannus o staff a gwirfoddolwyr o ystod eang o rolau, llawer ohonynt heb unrhyw brofiad ymchwil cyn ymuno â'r rhaglen, a gyda'u gilydd maent yn helpu i adeiladu diwylliant ymchwil cryfach ledled y sefydliad.

Ein blwyddyn: 1st

- 6 carfan wedi cwblhau
- 45 Arweinwyr Ymchwil BIPAB
- gan gynnwys 6 gwirfoddolwr
- 4 sesiwn anwytho bob blwyddyn
- aelodau staff wedi trefnu lle ar sesiynau anwytho yn y dyfodol yn barod
- 12
- 40 aelodau staff sydd wedi mynegi diddordeb ond heb fynychu eto



Adeiladu Cymuned Amrywiol

Mae Hyrwyddwyr yn dod o bob cwr o BIPAB, gan gynnwys timau clinigol, iechyd meddwl, gofal brys, llyfrgelloedd, gwasanaethau gweinyddol, codio, gwasanaethau rheng flaen, a rhaglenni gwirfoddoli. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf wedi dod i mewn i'r rhaglen heb unrhyw brofiad ymchwil blaenorol yn dangos pa mor gynhwysol a hygrych yw hi.

Mae sesiynau anwytho, sydd bellach wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu darparu bob chwarter, yn cyfuno cyflwyniadau i ymchwil, teithiau o amgylch yr adran, gweithgareddau rhwydweithio, a chyfleoedd i gwrdd â'r Tîm Ymchwil ehangach. Mae adborth yn dangos bod y sesiynau hyn yn adeiladu hyder ac yn gwneud i ymchwil deimlo'n bosib i bawb.



Ym mis Tachwedd 2025, dathlodd y rhaglen ei phen-blwydd yn un oed a chafwyd cyflwyniad arbennig yn y bore, (gyda chydweithwyr o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru), cinio dathlu ar gyfer pob hyrwyddwr, a Diwrnod Agored y Adran Ymchwil yn y prynhawn. Roedd ymdeimlad o gymuned, cyflawniad a chyddiben cryf drwy gydol y diwrnod. I nodi'r garreg filltir, derbyniodd pob Hyrwyddwr glipfwrdd Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil arbennig, gan gryfhau'r teimlad o hunaniaeth a balchder o fewn y grŵp.



Hyrwyddwyr yn Gwneud Gwahaniaeth



Go iawn

Ehangu'r Rhaglen

Mae gwirfoddolwyr yn dod yn rhan gynyddol bwysig o'r gymuned Hyrwyddwyr, ac mae cynlluniau i integreiddio rôl Hyrwyddwyr Ymchwil ymhellach i mewn i lwybrau gwirfoddol presennol y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhaglen hefyd yn archwilio rolau i wirfoddolwyr yn y Ganolfan Ymchwil, gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn modd ystyrlon ac yn cael eu cefnogi.



Arweinyddiaeth
Becoming Pls,
meysydd
ymchwil
newydd

Gwelededd
Stondinau
ymchwil,
poster,
cyfryngau
cymdeithasol

Cynhwysiant
Mynediad i
brosiect QI,
cyfeirio

Ymgysylltu
Sgyrsiau,
rhannu
cyfleoedd

Cyfraniadau'r
Hyrwyddwyr
Ymchwil

Cymorth
Gweithredol
Prosesau
gwell, cymorth

Cymuned
Rhwydweithio
cefnogi
digwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Hyrwyddwyr wedi dangos sut y gall gweithredoedd bychain, ymarferol ar draws sawl tîm wneud gwahaniaeth ystyrlon o ran y ffordd y caiff ymchwil ei ddeall a'i drafod o fewn BIPAB. Mae eu cyfranogiad eisoes wedi gwella ymwybyddiaeth o ymchwil yn lleol ac wedi cefnogi gweithgarwch mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae'r gwaith hwn wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer y rhaglen, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y momentwm hwn wrth iddo ddatblygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Edrych tua'r Dyfodol

Wrth i'r rhaglen symud i mewn i'w hail flwyddyn, bydd sawl blaenoriaeth yn arwain ei datblygiad:

- **Ail-werthuso gwybodaeth am ymchwil a hyder**, gan ddefnyddio data sylfaenol a gasglwyd yn ystod y sesiynau anwytho i fonitro cynnydd dros amser.
- **Adolygu cynrychiolaeth o'r gweithlu** i nodi grwpiau staff sy'n cael eu tangynrychioli ac archwilio a all llwybrau mwy hyblyg helpu i ddileu rhwystrau.
- **Deall patrymau absenoldeb** ymhlith staff sy'n mynegi diddordeb ond nad ydynt yn symud ymlaen i anwythiad, gan sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn hygyrch ac yn gefnogol.
- **Ehangu cyfranogiad gwirfoddol**.
- **Adeiladu recriwtio i mewn i gyfleoedd presennol**, megis gwahodd mynychwyr i'r gweithdai PI i ddod yn Hyrwyddwyr.
- **Datblygu llwybr syml ar gyfer staff sy'n brofiadol o ran cymryd rhan mewn ymchwil** i ymuno heb fod angen yr anwythiad llawn.



Effaith Gwranddo mewn Llwybrau Ymchwil

Mae profiad byw a chyflawni ymchwil yn aml yn edrych fel dau fyd cwbl wahanol, ond i lawer o deuluoedd, ac i lawer o staff, nid ydynt.

Mae fy mhrofiad fy hun o salwch cardiaidd etifeddol yn eistedd ochr yn ochr â'm rôl broffesiynol, ac mae'r persbectif dwbl hwn yn datgelu gwirionedd syml: nid yw deall y wyddoniaeth yr un peth â byw yr ansicrwydd.

Nid yw canlyniadau genetig bob amser yn rhoi eglurder. Yn fy ngheulu fy hun, mae'r un amrywiad genynnol wedi arwain at brofiadau gwahanol iawn. Mae'r gwahaniaethau hynny yn codi cwestiynau bob dydd am risg, amseru, a beth yw'r wybodaeth sy'n wirioneddol ddefnyddiol. Mae teuluoedd yn eistedd gyda'r ansicrwydd hwn ymhell cyn i broses astudio gael ei dylunio.

O fewn cyflawni ymchwil, rydym yn treulio llawer o amser yn rhagweld pryd a sut y bydd pobl eisiau cymryd rhan mewn astudiaethau. Er ein bod yn meddwl yn dda, rydym yn dal i wneud camgymeriadau. Rydym yn tybio ein bod yn gwybod beth yw blaenoriaethau pobl neu pa mor barod ydynt yn emosiynol. Rydym yn tybio mai ein dewisiadau llwybr ni yw'r unig rai hyfyw. Er bod y cyhoedd a cleifion wedi cyfranogi, mae bwlch o hyd o ran cynrychiolaeth.

Dangosodd un astudiaeth hyn yn glir. Roedd y nifer a oedd yn cael eu recriwtio yn isel nes i ni ofyn i gleifion a theuluoedd am bwynt amseru, rhywbeth yr oeddem, cyn hyn, yn teimlo a oedd yn "rhy llethol." Roedd eu hymateb yn ddiamheuol: "gofynnwch i ni bryd hynny". Newidiodd y llwybr, a llwyddom i recriwtio'n gyflymach. Nid trwy fabwysiadu dull newydd y daeth y gwelliant; daeth trwy wrando.

Nid yw cymryd rhan ystyrlon yn syml, ac ni ddylai fod. Mae'n herio rhagdybiaethau, yn ehangu'r ffordd y mae pobl yn meddwl, ac yn cadw ymchwil yn seiliedig ar fywydau go iawn yn hytrach na bywydau damcaniaethol.

Pan fydd profiad byw yn siapio dyluniad a darpariaeth o'r cychwyn, mae canlyniadau, ymgysylltiad, a phoblogrwydd yn gwella. Dyma sut mae ymchwil yn dod yn rhywbeth y mae pobl yn ei adnabod, yn ei werthfawrogi, ac yn dymuno bod yn rhan ohono.

Anna Roynon Reed
Cyflawni Ymchwil BIPAB
Uwch Nyrs y Tîm Arwain



Blaen Gynllun

Wrth i ni symud i mewn i bedwaredd blwyddyn ein Strategaeth Ymchwil pum mlynedd (2022–2027), mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mewn sefyllfa gref i adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma. Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd newidiadau mawr ar draws tirwedd ymchwil y DU, gan gynnwys Rheoliadau Treialon Clinigol newydd (5) a chanllawiau Ymarfer Clinigol Da diwygiedig (14). Yn erbyn y cefndir hwn, bydd ein ffocws yn canolbwyntio ar gydgrynhoi'r hyn sy'n gweithio'n dda, cryfhau'r meysydd lle mae angen datblygiad pellach, a sicrhau bod ein system ymchwil yn parhau i fod yn ymatebol, yn gynaliadwy, ac yn gydnaws â disgwyliadau cenedlaethol.



Cryfhau Capasiti, Gallu a Datblygiad y Gweithlu

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gynyddu'r amser ymchwil sy'n cael ei ddiogelu ar draws proffesiynau, gan sicrhau bod cynllunio swyddi a PADR yn cydnabod yn gynyddol bwysigrwydd gweithgaredd ymchwil. Bydd rôl y Cymrawd Ymchwil Clinigol yn cael ei hymgorffori'n llwyr a'i hadolygu'n ffurfiol er mwyn deall ei gwerth hirdymor a deall sut y gellir ei chymhwyso, o bosib, mewn meysydd eraill. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfaedd ac ymchwilwyr nad ydynt yn feddygol trwy wella mynediad at fentora, llwybrau datblygiadol cliriach a chyfluoedd i gael profiad. Bydd ein partneriaeth barhaus gyda Phrifysgol Caerdydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r ffordd yr ydym yn cefnogi Prif Ymchwilwyr sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu a symud ymlaen. Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth bresennol, bydd y dull hwn yn cefnogi piblinell ehangach a mwy hyderus o staff sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ar draws proffesiynau, gyda gweithgarwch ymchwil yn cael ei gydnabod yn gynyddol a'i gynllunio o fewn prosesau cynllunio swyddi rheolaidd.

Systemau Ymchwil o Ansawdd Uchel, Effeithlon sy'n Cydymffurfio

Byddwn yn parhau i roi ffocws allweddol ar sicrhau bod gofynion rheoleiddio newydd a Pholisi Cyllid R&D Cymru Gyfan yn cael eu cyflwyno, a sicrhau ein bod yn cydymffurfio. Byddwn yn cyflawni cynllun archwilio mewnol 2026 ac yn pharhau i wella trefniadau llywodraethu i sicrhau eglurder a chysondeb. Bydd y gwaith o gyflwyno Florence eBinders yn parhau ar draws y Bwrdd Iechyd, ynghyd â gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn y maes Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau bod ymchwilwyr yn cael mynediad amserol i'r systemau a'r data sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys llwybrau gwell ar gyfer monitro o bell sy'n cydymffurfio â MHRA. Bydd hyn yn sicrhau, erbyn 2026-27, bod prosesau llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson, eu bod yn barod ar gyfer archwiliad, ac yn cael eu cefnogi gan systemau digidol sy'n galluogi goruchwyliaeth gymesur a chymorth effeithlon i'r cyflenwr.

Blaen Gynllun parhad

Ehangu Ymchwil Fasnachol a Gallu Treialon Cymhleth

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Tîm Treialon Camau Cynnar a Chymhleth yn parhau i gryfhau sgiliau, prosesau a pharodrwydd gweithredol sydd eu hangen i gefnogi astudiaethau masnachol camau cynnar a mwy dwys. Mae hyn yn cynnwys cryfhau asesiadau dichonoldeb, parodrwydd mewn argyfwng, a chydweithrediad agosach gyda gwasanaethau cefnogol i sicrhau bod treialon mwy cymhleth yn cael eu cyflawni'n ddiogel ac yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth ymchwil bresennol bydd y gwaith hwn yn cefnogi mwy o barodrwydd i gynnal amrywiaeth ehangach o astudiaethau masnachol a helpu i ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Ymchwil nesaf. Ynghyd â hyn, bydd y rhaglen VPAG yn parhau i gefnogi twf yn yr ymchwil fasnachol, yn enwedig mewn meysydd sydd wedi dangos potensial cryf ar gyfer cyflawniad. Un o'r prif flaenoriaethau fydd cryfhau cynaliadwyedd tymor hir swyddi a seilwaith a ariannwyd gan VPAG trwy wella'r gwaith o ragweld incwm, adroddiadau ariannol mwy cadarn, a chynllunio cynnar ar gyfer y cyfnod ar ôl 2029, tra'n parhau i fynd i'r afael â heriau o ran capasiti a allai effeithio ar gyflymder y gwaith o gyflawni treialon.

Ymgorffori Ymchwil mewn Gwasanaethau Clinigol a Gwella Mynediad

Byddwn yn parhau i wneud mwy o waith ar ymgorffori modelau cyflawni ymchwil, gan gefnogi i gynnal a chyflawni astudiaethau fel rhan o'u gwaith rheolaidd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb o ran mynediad i ymchwil ar draws safleoedd a gwasanaethau. Bydd ymgysylltiad cleifion a'r cyhoedd yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith hwn, gyda ffocws parhaus ar gynnwys, lleihau rhwystrau i gyfranogi, a chreu perthnasoedd gyda chymunedau sydd wedi cael eu tan-gynrychioli mewn ymchwil. Bydd y Rhaglen Hyrwyddwr Ymchwil yn parhau i mewn i'w ail flwyddyn, gan gryfhau ymwybyddiaeth, hyder a gwelededd ymchwil ledled y sefydliad a chefnogi cyfranogiad ehangach mewn gweithgaredd ymchwil.

Cryfhau Partneriaethau, Gwelededd ac Alinio Strategol

Byddwn yn dyfnhau ein cydweithredïadau a'n partneriaethau i ehangu cyfleoedd i gleifion a staff. Bydd cryfhau ymgysylltiad ar lefel y Bwrdd a gwella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ar weithgarwch ac effaith ymchwil yn rhan bwysig o'r gwaith o ymgorffori ymchwil yn llwyr i mewn i waith meddwl a cynllunio'r sefydliad. Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth bresennol, rydym yn bwriadu cryfhau aliniad gydag ystod ehangach o strategaethau sefydliadol, gan gynnwys ymrwymiad parhaus â chydweithwyr Cynllunio i sicrhau bod gofynion ymchwil yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Strategaeth Ystadau'r Bwrdd lechyd tuag at 2028.

Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn cynnig cyfle i adeiladu'n hyderus ar sylfeini cadarn. Mae ein blaenoriaethau yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, cryfhau trefniadau llywodraethu, ehangu mynediad, a gwella cydweithrediad. Bydd sicrhau y gall swyddi a seilwaith a ariannwyd gan VPAG barhau yn y dyfodol yn rhan allweddol o'r gwaith hwn.

Ein huchelgais tymor hir yw gwneud ymchwil yn rhan arferol a hygyrch o ymarfer dydd i ddydd ledled y Bwrdd lechyd. Rydym yn parhau i ymrwymo i ddileu rhwystrau, creu cyfleoedd agored, a chefnogi cymuned amlddisgyblaethol amrywiol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu. Trwy gysylltu blaenoriaethau lleol â chyfeiriad cenedlaethol ac arbenigedd academiaidd, byddwn yn parhau i adeiladu diwylliant lle mae ymchwil yn cael ei deall, ei gwerthfawrogi a'i chydabod fel rhan hanfodol o wella gofal i'n cleifion a'n cymunedau.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn fodd o sicrhau bod ymchwil yn parhau i fod yn rhan ganolog, weladwy, sy'n cael ei gwerthfawrogi o'r ffordd yr ydym yn darparu gof-fawrogiad i'r Cynllunio ar gyfer y dyfodol.



Cyfeiriadau

1. Boaz, A., Goodenough, B., Hanney, S. and Soper, B. (2024) *If health organisations and staff engage in research, does healthcare improve? Strengthening the evidence base through systematic reviews*. Health Research Policy and Systems, 22, Article 118. Ar gael o: <http://link.springer.com/article/10.1186/s12961-024-01187-7>
2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. *Strategaeth Ymchwil a Datblygu 2022-2027*. ABUHB; 2023. Ar gael o: <https://abuhb.nhs.wales/files/research-and-development/abuhb-r-d-strategy-pages-english-final2-pdf/>
3. O'Shaughnessy J. *Commercial Clinical Trials in the UK: The Lord O'Shaughnessy Review*. Department of Health and Social Care; 2023. Ar g: <https://www.gov.uk/government/publications/commercial-clinical-trials-in-the-uk-the-lord-oshaughnessy-review>
4. Department of Health and Social Care. *UK secures £400 million investment to boost clinical trials*. GOV.UK; 2024. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/uk-secures-400-million-investment-to-boost-clinical-trials>
5. Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA) (2025). *Clinical trials regulations signed into law*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/clinical-trials-regulations-signed-into-law>
6. Annas GJ. *Beyond Nazi War Crimes Experiments: The Voluntary Consent Requirement of the Nuremberg Code at 70*. Am J Public Health. 2018;108(1):42–46.
7. Kopjar V. *An Overview of the Nuremberg Code, Declaration of Helsinki and Belmont Report in the Context of Promoting Ethical Global Clinical Trial Conduct*. J Clin Res. 2021;5:131.
8. Llywodraeth Cymru. Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Adeiladu Galluedd Ymchwil o fewn Nyrsio, Bydwreigiaeth a Phroffesiynau Iechyd Perthynol i Iechyd yng Nghymru; 2025. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-06/strategic-action-plan-building-research-capability-nursing-midwifery-allied-health-professions-in-wales.pdf>
9. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. *Fframwaith Ymchwil: Pam bod Ymchwil yn Bwysig*. Llywodraeth Cymru; 2022. Ar gael o: <https://healthandcareresearchwales.org/about-research/research-framework>
10. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. *Cleifion i fanteisio ar ddiagnosis cyflymach a mynediad at driniaethau sydd ar flaen y gad yn dilyn hwb i ymchwil clinigol*. Ar gael o: [Cleifion i fanteisio ar ddiagnosis cyflymach a mynediad at driniaethau sydd ar flaen y gad yn dilyn hwb i ymchwil clinigol | Health Care Research Wales](#)
11. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. *Rhaglen Mynd i'r Afael a Chanser trwy Ymchwil*. Ar gael o: [Rhaglen Mynd i'r Afael â Chanser trwy Ymchwil | Health Care Research Wales](#)
12. Welsh Government. Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG 2026 (WHC/2026/008) Ar gael o: [Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG 2026 \(WHC/2026/008\) | LLYW.CYMRU](#)
13. National Institute for Health and Care Research. Associate Principal Investigator Scheme. NIHR; 2024. Ar gael o: <https://www.nihr.ac.uk/career-development/clinical-research-courses-and-support/associate-principal-investigator-scheme>
14. International Council for Harmonisation (ICH) (2025). *Guideline for Good Clinical Practice E6(R3)*. Adopted 6 January 2025. Ar gael o: https://database.ich.org/sites/default/files/ICH_E6%28R3%29_Step4_FinalGuideline_2025_0106.pdf

